# Cylchlythyr y Rhwydwaith Gofal Plant Ebrill 2025

## Hoffech chi fod yn ddarparwr gofal plant Dechrau'n Deg?

Mae Llywodraeth Cymru nawr wedi cadarnhau ei chynnig ar gyfer ehangu Gofal Plant Dechrau'n Deg, gam ar y tro, ar gyfer pob plentyn dwy flwydd oed; i sicrhau bod cymaint o deuluoedd â phosibl yn cael eu cefnogi ledled Cymru. Rydym yn annog darparwyr newydd, gan gynnwys gwarchodwyr plant a'r rheiny sy'n arbenigo mewn darpariaeth gyfrwng Cymraeg, i gynnig lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg.

Er mwyn cynnig rhagor o wybodaeth, hoffem eich gwahodd i ddod i siarad â'n darparwyr gofal plant Dechrau'n Deg presennol ynglŷn â bod yn ddarparwr Dechrau'n Deg. Mae'r manylion isod:



## Wythnos Genedlaethol Gwarchod Plant
## 10-16 Mai 2025
## #WythnosGwarchodPlant25 #ArwyrTawelGofalPlant

Mae PACEY eisiau defnyddio #WythnosGwarchodPlant25 i godi ymwybyddiaeth am warchodwyr plant, dathlu'r gwaith anhygoel maen nhw'n ei wneud, meithrin ymdeimlad o gymuned a chynnwys mwy o randdeiliaid o'r sector.

Byddwn yn cynnal digwyddiad dathlu mewn cydweithrediad â Chwarae Torfaen ac yn gwahodd Gwarchodwyr Plant - manylion i ddilyn yn y man!

pacey Cymru

## Cynnig Gofal Plant Cymru

Fel y byddwch efallai'n gwybod, mae Tîm Cynnig Gofal Plant Cymru wedi bod yn gweithio'n galed dros y misoedd diwethaf i ddatblygu elfen ddilysu newydd GOV.UK One Login ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru.
Aeth yr elfen hon ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth newydd yn fyw yn gynharach y mis hwn.
O'r pwynt hwn, bydd defnyddwyr gwasanaeth sy'n newydd i'r Cynnig Gofal Plant yn cael eu harwain i greu cyfrifon GOV.UK One Login newydd, neu ddefnyddio cyfrifon GOV.UK One Login sydd ganddynt yn barod, wrth gofrestru ar gyfer y Cynnig Gofal Plant.
Bydd defnyddwyr gwasanaeth sy'n defnyddio'r Cynnig Gofal Plant yn barod yn cael yr opsiwn o symud draw at GOV.UK One Login o 5 Mai.
Bydd defnyddwyr gwasanaeth sy'n cysylltu â'r llinell gymorth am gymorth gyda'r dilysu yn cael eu cyfeirio at y tîm yn Wrecsam sydd wedi cael hyfforddiant ac arweiniad manwl yn y maes hwn.

Cynnig Gofal Plant Cymru
Childcare Offer for Wales

**Cyfleoedd cyllido a hyfforddiant:**
**Hyfforddiant wedi'i ariannu'n llawn gan Glybiau Plant Cymru Kids' Clubs**

Lefel 2 mewn Arferion Gwaith Chwarae- 14/05/2025-16/07/2025 (21797) Hybrid Caerdydd ac Ar-lein

Lefel 2 mewn Arferion Gwaith Chwarae- 16/05/2025-18/07/2025 (21801) Hybrid Caerffili ac Ar-lein

Lefel 2 mewn Arferion Gwaith Chwarae - 19/05/2025-14/07/2025 (21802) Hybrid Caerfyrddin ac Ar-lein

Dyfarniad Cwrs Lefel 3 Pontio at Waith Chwarae (21763) 12/05/25-21/07/25

Dyfarniad Cwrs Lefel 3 Pontio at Waith Chwarae (21764) 14/05/25-16/07/25

Dyfarniad Cwrs Lefel 3 Pontio at Waith Chwarae (21765) 06/05/25-08/07/25

## Arolwg o Sefyllfa'r Sector Gofal Plant - Mae angen eich barn arnom

Yn rhan o'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Blynyddol, rydym yn gofyn i bob darparwr gofal plant gymryd rhan yn ein harolwg. Bydd y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni yn ein helpu i lunio trosolwg o'r prif faterion y gallai ymarferwyr gofal plant fod yn eu hwynebu yn ystod y 12 mis nesaf. Gofynnwn yn garedig i chi rannu eich atebion trwy ein harolwg byr, yma.

https://forms.office.com/e/sWApn70JAZ

Torfaen
Family Information Service
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

**Swyddi Gwag ym maes Gofal Plant**
**Gweithiwr Gofal Plant Achlysurol (Blynyddoedd Cynnar)**

Mae'r Tîm Blynyddoedd Cynnar yn chwilio am Weithiwr Gofal Plant Achlysurol profiadol a brwdfrydig sydd â chymwysterau addas, i weithio yn ôl yr angen.

Byddai'n ofynnol i'r Gweithiwr Gofal Plant Achlysurol weithio mewn amrywiaeth o leoliadau Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar a gyda'r Tîm Crèche Symudol.

Rhaid i ddeiliad y swydd fod â chymhwyster addas yn y Blynyddoedd Cynnar/Gofal Plant er enghraifft NVQ Lefel 3 neu'r cywerth.

https://ce0895li.webitrent.com/ce0895li_webrecruitment/wrd/run/etrec179gf.open?wvid=624083EpRF

## Dolenni ac Adnoddau

### Prosiect Toy Box

Mae Prosiect o'r enw Toy Box wedi'i leoli yng Nghaerffili ac mae'n cymryd teganau hen a newydd i'w rhoi i deuluoedd a sefydliadau ag angen amdanynt. Mae rhagor o wybodaeth ar
https://toyboxproject.co.uk/
https://www.facebook.com/ToyBoxProjectUK

### Faint o'r Gloch Mr/Mrs Blaidd?

Lawrlwythwch boster gweithgaredd Faint o'r Gloch Mr/Mrs Blaidd CPCKC sydd hefyd yn cynnwys geirfa allweddol yn y Gymraeg i'ch cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg wrth chwarae'r gêm glasurol hon gyda'r plant yn eich lleoliad.
Lawrlwytho

## Diweddariad gan AGC

**Adnoddau asesu ac arsylwi i gefnogi ysgolion a lleoliadau**

**Asesu - Meddwl am eich asesiadau cychwynnol?**

Gall y trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir, eich helpu i gynllunio asesiadau cychwynnol a pharhaus, a'u cynnal.

Cefnogi dilyniant y dysgwr: mae canllawiau asesu yn cynghori ysgolion a lleoliadau am drefniadau asesu effeithiol ac ymarfer effeithiol yn yr ystafell ddosbarth.

Arsylwi - mae arsylwi effeithiol yn allweddol er mwyn asesu'n llwyddiannus. Gall yr adnoddau hyn eich helpu i gael dealltwriaeth fanylach am arsylwi a'i rôl wrth wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu:

Dysgu Proffesiynol - Arsylwi

Dysgu Proffesiynol: ffeithlun

Dysgu Proffesiynol – Datblygiad sgematig

Pecyn Cymorth datblygiad sgematig

Adnoddau fideo dysgu yn y Cyfnod Sylfaen: Datblygiad sgematig: Sylwi ar y patrymau ailadroddus a'u cefnogi

## Darllen Difyr

**Sustainability – Does anybody actually know what this word means?**

"Dywedwch wrtha' i ac fe anghofiaf, dysgwch fi ac efallai y cofiaf, ond wrth gynnwys fi rwy'n dysgu." – Cyfieithiad o eiriau Benjamin Franklin

Er bod gwneud dewisiadau cynaliadwy fel siopa'n lleol, meddwl am gylch oes cynnyrch a thyfu llysiau yn bwysig, mae yna gyfle unigryw i addysgwyr ddechrau ton o weithgarwch a allai greu ymgyrch dros newid.

Mae sicrhau bod eich ymdrechion cynaliadwy yn weladwy, yn syml ac yn gallu cael eu gweithredu, yn cynnig cyfle hawdd i deuluoedd ymgysylltu ag arferion cynaliadwy a chymryd rhan ynddynt. Dyma sut aeth Santa Svike, yr Arweinydd Cynaliadwyedd yn Acorn Early Years, ati, trwy ofyn i staff, plant a theuluoedd ddiffinio cynaliadwyedd a nodi arferion gorau. Mae'r erthygl hon yn rhannu ei chanfyddiadau ac yn dangos sut y mae integreiddio adnoddau naturiol i leoliadau meithrin yn holl bwysig er mwyn meithrin dyfodol cynaliadwy.

Mae'r erthygl lawn ar gael yma Sustainable play | Topics | Community Playthings

## Cynghrair y Blynyddoedd Cynnar

"Os cewch eich profiad cyntaf o lyfr pan fyddwch chi'n cwtshio gyda rhywun sy'n eich caru chi, neu sydd o leiaf yn gyfrifol amdanoch chi, yna rydych chi'n cael braint anweledig enfawr: cwtsh a fydd yn para gweddill eich oes" - Frank Cottrell-Boyce, Awdur Llyfrau Plant Arobryn.

## Newyddion Da

Yn ddiweddar, mae ein Swyddog Ymgysylltu Gofal Plant, Charlotte, wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn PACEY Cymru, Gyrfa Cymru a Gofalwn Cymru i hyrwyddo gyrfa ym maes gofal plant. Aeth Charlotte i ddigwyddiad Carwsél Gyrfaoedd yn Ysgol Uwchradd Cwmbrân lle siaradodd myfyrwyr â nifer o weithwyr proffesiynol yn y Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae hwn yn un o nifer o ddigwyddiadau y byddwn yn eu cynnal yn y dyfodol agos i helpu recriwtio i'r sector gofal plant.

## Mae eich angen chi arnom!

Gadewch i ni wybod beth hoffech chi ei weld yn y cylchlythyrau yn y dyfodol. Byddem wrth ein bodd i glywed am eich straeon newyddion da er mwyn i ni eu rhannu ar draws y Fwrdeistref, gan ein bod ni'n gwybod bod pethau anhygoel ar y gweill. Ffoniwch ni neu anfonwch neges trwy e-bost i FIS@torfaen.gov.uk gyda'ch syniadau, straeon newyddion da, diweddariadau ayb. Edrychwn ymlaen at glywed gennych!!